**Adroddiad i'r:** **CABINET**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **19eg Mawrth 2013**

**Aelod Arweiniol Cabinet:** **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill**

**Swyddog Arweiniol:** **Paul McGrady, Pennaeth Cyllid ac Asedau**

**Teitl:** **Adroddiad Cyllid**

## 1 Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion cyllideb refeniw ac arbedion y cyngor fel y'u cytunwyd ar gyfer 2012/13, ar ddiwedd Chwefror 2013. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno ar y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai. Mae adroddiad ar wahân ar y Cynllun Cyfalaf ar raglen y Cabinet y mis hwn.

## 2 Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?

Diweddaru'r aelodau ar sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n cydnabod y cyllidebau a'r targedau arbed ar gyfer y flwyddyn a'r cynnydd mewn perthynas â'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd.

## 4 Manylion yr adroddiad

Cyflwynir amcanestyniadau'r gyllideb refeniw fel **Atodiad 1** ac mae'n dangos tanwariant ar draws cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol o £1.1m (£631k y mis diwethaf), sy'n cynrychioli amrywiad o 0.9% ar draws y gyllideb net gyfan. Mae sefyllfa ysgolion yn amcanu symudiad net cadarnhaol ar falansau o £306k (£286k y mis diwethaf) ar gyllidebau dirprwyedig a £161k ar gyllidebau ysgolion heb eu dirprwyo (heb newid ers y mis diwethaf).

Cynhwysir crynodeb o'r Cyfrif Refeniw Tai hefyd yn Atdodiad 1 er gwybodaeth ond mae hon yn gronfa ar wahân ac nid yw'n rhan o brif gyllideb refeniw'r Cyngor.

Mae **Atodiad 2** i'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad yn dangos cynnydd mewn perthynas ag arbedion a'r pwysau a gytunwyd fel rhan o broses pennu cyllideb 2012/13. I gyd, cytunwyd arbedion net o £3.44m ac mae £3.418m (99.3%) wedi eu cyflawni neu wedi eu disodli gyda £25k (0.7%) wedi ei ohirio tan y flwyddyn nesaf. Mae dau o'r arbedion o fewn Priffyrdd wedi eu disodli: Rheoli Datblygiad (£18k), cynnig a oedd yn gysylltiedig â chydweithredu ac nad oes modd ei gyflawni bellach. Roedd arbedion Cynnal a Chadw yn y Gaeaf (£65k) yn rhannol gysylltiedig â chydweithredu a defnyddio cynhyrchion halen. Efallai y bydd peth effeithiolrwydd yn y maes hwn, ni chyflawnwyd y gostyngiad yn y gyllideb ac felly mae'r arbediad wedi ei ddisodli o fewn yr adran.

**5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6 Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?**

Defnyddir yr adran hon yn yr adroddiad i amlygu unrhyw amrywiadau allweddol o'r gyllideb. Isod mae manylion meysydd lle mae angen esboniad pellach.

**Cyllidebau Gwasanaeth**

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, dyfarnwyd cyllid grant yn hwyr yn y flwyddyn ac mae wedi gwella'r sefyllfa gyffredinol. Dangosir y manylion yn yr adrannau isod ar y gwasanaethau perthnasol.

**Cynllunio Busnes a Pherfformiad –** mae tanwariant wedi codi £35k i £61k. Mae hyn yn bennaf oherwydd costau TGCh yn ymwneud â phrynu meddalwedd mapio GIS yn rhatach na'r amcanestyniadau gwreiddiol. Cynigir y gellir defnyddio'r tanwariant yn 2013/14 i ariannu swyddi o fewn y strwythur Tîm Gwybodaeth Corfforaethol ac adnabod y buddsoddiad yn yr achos busnes ar gyfer prosiect EDRMS.

**Gwasanaethau Oedolion a Busnes –** adroddir alldro 2012/13 o fewn y Gwasanaethau Oedolion a Busnes ar hyn o bryd fel cyllideb gytbwys, er y rhagwelir gorwariant o ryw £22k ar hyn o bryd (i lawr o'r £106k a adroddwyd y mis diwethaf). Y prif reswm dros y gorwariant is yw incwm ychwanegol mewn perthynas â chyfraniadau cleient wedi cronni (tâl yn erbyn eiddo) yn dod i ryw £100k yn ystod Chwefror a dechrau Mawrth. Bu symudiad bychan hefyd mewn meysydd gwasanaeth eraill gyda phwysau ymylol yn cyfrannu tuag at y gostyngiad net o ben i ben. Fel y cytunwyd eisoes, bydd unrhyw orwariant ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei ddebydu i Gronfa Cefnogi Pobl yn unol ag adroddiadau cyllideb cynharach. Mae grant Cefnogi Pobl yn debygol o gynhyrchu gwarged yn y flwyddyn o £194k a chynigir dyrannu hyn i gronfa wrth gefn Cefnogi Pobl.

**Priffyrdd a Gwasanaethau'r Amglchedd –** Mae tanwariant Gwasanaethau'r Amgylchedd wedi cynyddu £78k i £193k. Mae hyn yn cynnwys dau danwariant ar y Gwasanaeth Cynnal a Chadw Tiroedd (£40k) a Glanhau Strydoedd (£58k) sy'n ymwneud â chaffaeliad wedi ei oedi mewn perthynas ag offer megis peiriannau torri gwair a sgubo strydoedd oherwydd yr Adolygiad Fflyd. Cynigir bod y symiau hyn yn cael ei clustnodi o fewn y balans gwasanaeth terfynol ar ddiwedd y flwyddyn i hwyluso'r buddsoddiad hwn yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'r Gwasanaeth Priffyrdd a Seilwaith wedi symud o orwariant o £15k i danwariant o £174k. Mae'r rhan fwyaf o'r symudiad hwn yn ymwneud ag adolygiad o ddefnydd balansau a gariwyd trosodd fel y nodwyd yn adroddiad monitro'r mis diwethaf ynghyd ac adolygiad o'r amcanestyniadau ar gyfer troslwyddiadau mewnol. Fodd bynnag, mae £46k o'r tanwariant yn ymwneud â dyraniad hwyr Grant Cymorth Trafnidiaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cymru. Y bwriad yw defnyddio'r grant i ariannu gwariant cymwysedig yn 2012/13 a defnyddio'r balans yn 2013/14 i liniaru effeithiau'r gostyngiad mewn lefelau grant ar wasanaethau. Efallai y bydd y dyraniad terfynol yn newid cyn diwedd y flwyddyn. Cynigir defnyddio £50k o'r tanwariant i gyfrannu tuag at ariannu swydd i hwyluso trosglwyddiad cyfleusterau asedau arfordirol i'r gwasanaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden. Efallai y bydd angen cyllid cario trosodd pellach o hyd at £30k i ariannu offer fel rhan o ddatblygiadau arfordirol y Rhyl, yn dibynnu ar amseriad y broses gaffael.

**Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** – ar hyn o bryd rhagwelir mai'r alldro fydd tanwariant o £35K (£80K y mis diwethaf). Mae'r tanwariant wedi gostwng oherwydd hawliad am gostau wedi eu hôl-ddyddio mewn trefniant gofal.

Mae'r pwysau a adroddir o fewn **Tai a Datblygu Cymunedol** yn ymwneud ag ariannu costau dileu swydd o fewn Adfywio.

**Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden –** yr amcanestyniad ar hyn o bryd yw tanwariant bach o £1k sydd wedi gwella o orwariant o £11k y mis diwethaf. Mae'r newid cadarnhaol yn deillio o falans tanwario o £25k yn cael ei gario trosodd o 11/12 ar y gyllideb Cyfathrebu a Marchnata, wedi ei fwriadu i'w ddefnyddio fel rhan o ad-drefnu'r gwasanaeth hwnnw. Yn anffodus bu oedi gyda'r adolygiad ac ni chaiff ei gwblhau nawr tan yn gynnar yn 2013/14. Yn seiliedig ar amcanestyniadau presenol mae'n amlwg y bydd problem efallai, gan fod angen y balans hwn i fantoli'r gyllideb Adrannol ac felly efallai na fydd ar gael i ariannu'r hwn y'i fwriadwyd ar ei gyfer yn wreiddiol. Bydd angen i unrhyw danwariant gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn ariannu costau sy'n gysylltiedig â'r ad-drefnu.

**TGCh/Gweddnewid Busnes** – mae'r amcanestyniad presennol wedi aros yr un fath (h.y. tanwariant cyffredinol o £27k). Ers y mis diwethaf, mae'r swm o wariant tebygol wedi gostwng ond caiff hyn ei wrthbwyso gan ganlyniad 'archwiliad trwydded' Lotus Notes a fydd yn cynyddu costau trwyddedu. Mae'r archwiliad bellach wedi ei gwblhau ac fe gadarnheir yr effaith ariannol yn y pythefnos nesaf.

**Cymorth Cwsmeriaid ac Addysg –** mae'r tanwariant wedi cynyddu £46k o'r mis diwethaf. Mae rhyw £25k o hwn yn ymwneud ag oedi wrth osod y pwynt talu awtomatig yn Neuadd y Sir. Cynigir cario hyn drosodd i 2013/14 i ariannu'r gwariant ymrwymedig. Mae costau Ad-drefnu Ysgolion hefyd wedi eu harchwilio a bydd yna danwariant nawr o ryw £35k. Mae'r gwasanaeth yn cynnig trosglwyddo hyn i Gronfa Wrth Gefn Moderneiddio Addsg i helpu ariannu costau ad-drefnu ysgolion yn y dyfodol. Dylid nodi bod y sefyllfa canol blwyddyn yn cynnwys £81k o falansau a gariwyd ymlaen sydd, oherwydd

problemau amseru, wedi aros heb eu hymrwymo yn y flwyddyn hon. Fel yr adroddwyd eisoes, mae'r gwasanaeth yn cynnig cario'r balansau ymlaen i 2013/14 i gyfrannu tuag at gostau ad-drefnu (£49k) a phrosiectau moderneiddio addysg (£32k).

**Gwella Ysgolion a Chynhwysiant –** fel y nodwyd yn adroddiad monitro y mis diwethaf, ymgymerwyd ag adolygiad llawn o dybiaethau yn ymwneud â lleoliadau y tu allan i'r Sir (ad-daliadau gan awdurdodau eraill am gymorth penodol a roddwyd i ddisgyblion Sir Ddinbych ac i'r gwrthwyneb) a chymorth AAA. Effaith hyn fu cynyddu'r tanwariant £69k.

**Ysgolion** - ar ddiwedd Chwefror, yr amcanestyniad ar gyfer balansau ysgolion yw £2.125m (£2.106m y mis diwethaf). Mae hyn yn symudiad cadarnhaol o £306k ar y balansau a gariwyd trosodd o 2011/12. Mae'r cyngor yn parhau i weithio â dwy ysgol gydag anawsterau ariannol. Mae gan yr ysgolion gynlluniau adfer ac maent yn gweithio'n bwrpasol tuag at y targedau a nodwyd yn y cynlluniau hyn. Mae gwariant ar gyllidebau ysgolion heb eu dirprwyo yn llai na'r hyn a ragwelwyd eleni yn bennaf oherwydd bod cyfraniadau i gyfrifon cronnus ar gyfer costau mamolaeth, salwch a chostau eraill yn is na'r hyn a gynlluniwyd. Mae hyn yn creu tanwariant yn y flwyddyn o £151k a thybir y caiff ei ddefnyddio i gyfrannu tuag at warchod fformiwla ysgolion yn 13/14.

**Cyllidebau corfforaethol –** mae'r cyllidebau corfforaethol wedi eu pennu gan dybio bod rhyw £1.7m yn cael ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn fel rhan o'r strategaeth ariannu ar gyfer y Cynllun Corfforaethol. Mae'n debygol y bydd y cyllidebau a glustnodwyd i gynhyrchu arian yn 2012/13 yn cynhyrchu mwy na'r targed o £1.7m ac amcanestynir £150k ar hyn o bryd. Mae'r cyngor yn debygol o fod angen gwneud darpariaeth mewn perthynas ag atebolrwydd yn deillio o MMI (fel yr adroddwyd eisoes) o ryw £350k.

Adroddwyd y mis diwethaf bod cost ychwanegol yr ymateb ar unwaith i'r llifogydd ym mis Tachwedd yn rhyw £260k. Tybir y bydd costau eraill, megis effaith eithriadau'r dreth gyngor yn rhyw £100k eleni a £213k yn y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd y costau a achoswyd mewn perthynas â'r ymateb yn llai na'r trothwy ar gyfer y Cynllun Cymorth Ariannol mewn Argyfwng ond mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig grant o £158k wedi hynny dan y Cynllun Cymorth Ariannol ar gyfer Adfer wedi Argyfwng. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn cyfrannu tuag at yr alldro Corfforaethol diwygiedig.

**Cynllun Cyfalaf**

Mae'r gwariant i ddiwedd Chwefror yn £23m o gymharu â Chynllun a gytunwyd o £30m. Dylid nodi bod gwariant yn chwarter olaf y flwyddyn bob amser yn cynyddu, a bod y tebygolrwydd o gael gwariant wedi ei gynllunio o £30m erbyn diwedd y flwyddyn yn realistig.

**Cyfrif Refeniw Tai (CRT)**

Mae'r amcanestyniadau diweddaraf ar gyfer y CRT yn dangos diffyg o £12k (£14k y mis diwethaf). Mae hyn yn cymharu â gwarged yn y flwyddyn a gyllidebwyd o £71k. Disgwylir y bydd y balans sy'n cael ei gario trosodd yn £860k. Mae adolygiad yn ddiweddar o Gynllun Busnes y Stoc Dai yn cadarnhau ei fod yn dal yn ymarferol yn ariannol.

***Cyfrif Refeniw Tai a Chynllun Cyfalaf Cryno:***

| Cyfrif Refeniw Tai Cryno 2012/13 Chwefror 2013 | |
|---|---|
| **Gwariant** | **£'000** |
| Rheoli a Chynnal a Chadw Tai | 5,799 |
| Taliadau Cyfalaf | 2,659 |
| Cymhorthdal | 3,081 |
| Darpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg | 79 |
| Gwariant Cyfalaf Arian Refeniw | 331 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **11,949** |
| **Incwm** | |
| Rhenti | 11,776 |
| Modurdai | 156 |
| Llogau | 5 |
| **Cyfanswm Incwm** | **11,937** |
| **Gwarged / (Diffyg) yn y flwyddyn** | **(12)** |
| **Balans CRT a gariwyd trosodd** | **860** |

| Cynllun Cyfalaf Tai Chwefror 2013 | £,000 |
|---|---|
| Gwariant a gynlluniwyd: | 7,183 |
| **Ariannwyd gan:** | |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | 2,400 |
| Cyfraniad Refeniw | 331 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 0 |
| Benthyca Darbodus | 4,452 |
| **Cyfanswm** | **7,183** |

## 7 Pa ymgynghori a fu?

Argymhellwyd y gyllideb refeniw gan y Cabinet a'i chytuno'n ffurfiol gan y cyngor ar ôl rownd gynhwysfawr o heriau gwasanaeth. Cymeradwywyd y cynllun cyfalaf gan y cyngor ar ôl gwaith craffu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac argymhelliad gan y cabinet. Cymeradwywyd y Cyfrif Refeniw Tai ar ôl ymgynghori ag aelodau etholedig a chynrychiolwyr ffederasiwn y tenantiaid.

## 8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r arbedion a gytunwyd ar gfer 2012/13 wedi eu cyflawni neu eu disodli, gydag un eitem wedi ei gohirio tan y flwyddyn nesaf. Mae'n bwysig bod gwasanaethau yn parhau i reoli cyllidebau'n ddarbodus a bod unrhyw warged yn y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canol. Mae amseriad gwaith ad-drefnu gwasanaeth a pheth cyllid grant ychwanegol wedi gwella'r sefyllfa a adroddir y mis hwn.

Er mwyn gwella gwelededd yn yr alldro a adroddir, cyflwynwyd newidiadau yn y dull o ddelio â chyfraniadau refeniw i falansau neu gronfeydd wrth gefn. Yn y gorffennol, roedd trosglwyddiadau bach neu drosglwyddiad fel rhan o raglen a gytunwyd eisoes yn cael eu prosesu yn ystod y flwyddyn a'u hadrodd ar ddiwedd y flwyddyn. Mae pob cynnig gwasanaeth mewn perthynas â defnyddio tanwariant yn y flwyddyn nawr yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau misol i'r cabinet felly ni fydd unrhyw drosglwyddiad i falansau neu gronfeydd wrth gefn yn cael ei dybio heb gael ei adrodd yn gyntaf. Mae'r drefn newydd hon wedi cyfrannu tuag at y sefyllfa well dros y ddau fis diwethaf ac yn sicrhau bod penderfyniadau i wneud trosglwyddiadau yn agored ac y gellir eu trafod yn llawn. Bydd yr adroddiad alldro nesaf yn amlygu'r holl drosglwyddiadau arfaethedig i neu o'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a drafodwyd yn adroddiadau diweddar y cabinet.

Bydd costau gwasanaeth ychwanegol yn deillio o'r ymateb i'r llifogydd ym mis Tachwedd yn cael eu hariannu'n gorfforaethol.

**Sylwadau Economaidd a Diweddariad ar Reoli'r Trysorlys**

Mae'r marchnadoedd ariannol yn parhau i fod yn aniscr ac mae hyn yn parhau i gyfyngu'r nifer o sefydliadau y gall y cyngor fuddsoddi gyda hwy a hyd y buddsoddiadau y gall y cyngor eu gwneud. Mae'r ddau beth yn cyfyngu'r enillion y gall y cyngor eu derbyn. Mae'r strategaeth o wneud buddsoddiadau byrdymor yn debygol o barhau yn y tymor canol.

Cymeradwywyd Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi 2013/14-2015/16 gan y Cyngor ar 26ain Chwefror 2013.

Ar ddiwedd Chwefror, roedd cyfanswm benthyciadau yn £133.32m ar gyfradd gyfartalog o 5.77% ac roedd cyfanswm buddsoddiadau yn £18m ar gyfradd gyfartalog o 0.75%.

**9 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a byddai methu â chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn rhoi pwysau pellach ar y gwasanaethau yn y flwyddyn hon ac mewn blynyddoedd ariannol yn y dyfodol. Bydd gwaith monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol ac adrodd yn gynnar ar unrhyw amrywiadau yn helpu sicrhau cyflawni'r strategaeth ariannol.

Mae risgiau penodol yn amlwg wrth ddelio â phrosiectau cyfalaf a gall gynnwys gwariant neu amser yn rhedeg trosodd, problemau ariannu ac

ystyriaethau eraill heb fod yn rhai ariannol. Gall mecanwaith cymeradwyo cadarn a threfniadau monitro ac adrodd ariannol manwl, ynghyd â threfniadau rheoli prosiect effeithiol, helpu lleihau’r risgiau hyn.

Mae’r CRT yn ymgymryd â buddsoddiad cyfalaf sylweddol i wella’r stoc dai ac yn defnyddio benthyciadau a grantiau i ariannu’r gwaith. Rhaid bod unrhyw fenthyciad yn fforddiadwy ac mae gwaith monitro rheolaidd a chymeradwyaeth flynyddol ac asesiad o hyfywedd Cynllun Busnes y Stoc Dai yn sicrhau bod hyn yn digwydd.

## 10 Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae gofyn i awdurdodau lleol, dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.